

## Pwy all wasanaethu fel llywodraethwr ysgol?

Caiff unrhyw un dros 18 oed wasanaethu fel llywodraethwr, ond mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 yn nodi rhai eithriadau.

*Ni fyddwch yn gymwys i ddod yn llywodraethwyr neu barhau â'ch swydd fel llywodraethwyr os yw unrhyw rai o'r canlynol yn berthnasol i chi:*

1. Rwy'n bwriadu gwneud cais am swydd ychwanegol fel llywodraethwr yn yr ysgol yr wyf eisoes yn llywodraethwr ynddi;
2. Rydych eisoes yn llywodraethwr mewn dwy ysgol;
3. Rydw yn gweithio fel clerc i'r corff llywodraethu yn yr ysgol yr ydych yn ymgeisio amdani;
4. Rwyf wedi cael fy ngwahardd rhag gwasanaethu fel llywodraethwr yn yr ysgol yr wyf yn gwneud cais amdani yn ystod y 12 mis diwethaf am ddiffyg presenoldeb;
5. Rydych yn destun gorchymyn cyfyngu methdaliad neu orchymyn dros dro;
6. Mae eich eiddo wedi'i atafaelu ac nid yw'r gorchymyn atafaelu wedi'i ryddhau, ei ddirymu neu ei ddileu;
7. Rydych yn destun:
  - i. Gorchymyn gwahardd neu waharddiad dan Ddeddf Gwahardd Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986.
  - ii. Gorchymyn gwahardd dan Ran 2 Gorchymyn Cwmnïau (Gogledd Iwerddon) 1989
  - iii. Gwaharddiad dan Ddeddf Gwahardd Cyfarwyddwyr Cwmnïau (Gogledd Iwerddon) 2002.
  - iv. Gorchymyn a wnaed dan adran 492(2)(b) Deddf Ansoffedd 1986 (methu â thalu dan Orchymyn Gweinyddu Llys Sirol)
9. Rydych wedi'ch gwahardd rhag gwasanaethu fel ymddiriedolwr elusen neu ymddiriedolwr ar ran elusen gan y Comisiynwyr Elusen neu Uchel Lys ar sail unrhyw gamymddwyn neu gamweinyddu dan adran 7 Deddf Diwygiadau Cyfreithiol (Darpariaethau Amrywiol) (Yr Alban) 1990 ac ni chewch reoli na llywio unrhyw gorff;
10. Mae eich enw ar y rhestr o bobl y mae eu cyflogi wedi'i wahardd neu ei gyfyngu dan Adran 1 Deddf Amddiffyn Plant 1999;
11. Rydych yn anghymwys i weithio gyda phlant neu rydych yn destun cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru dan adran 142 Deddf Addysg 2002;
12. Rydych wedi'ch gwahardd rhag bod yn berchennog ysgol annibynnol;
13. Rydych wedi cael dedfryd o garchar (boed yn ohiriedig neu beidio) am gyfnod o dri mis neu fwy (heb y dewis o gael dirwy) yn ystod y pum mlynedd cyn dod yn llywodraethwr neu ar ôl dod yn llywodraethwr;
14. Rydych wedi'ch dedfrydu i garchar am ddwy flynedd a hanner neu fwy yn ystod yr 20 mlynedd cyn dod yn llywodraethwr;
15. Rydych wedi cael dedfryd o garchar o bum mlynedd neu fwy ar unrhyw adeg;
16. Rydych wedi cael dirwy am achosi poendod neu helynt ar eiddo ysgol yn ystod y pum mlynedd cyn neu ar ôl eich penodi neu ethol fel llywodraethwr;
17. Rydych yn gwrthod cais gan gorff llywodraethu ar unrhyw adeg i wneud cais i'r Gwasanaeth Datgeliad ac Atal am Dystysgrif Datgeliad ac Atal (Gwiriad DBS) a elwid yn Wiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol gynt

Rhaid i chi roi gwybod i ni os cewch eich dal dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 oherwydd gallech gael eich anghymhwysu o fod yn llywodraethwr. Os hoffech drafod eich cymhwysedd ymhellach, cysylltwch â'r Gwasanaethau Cymorth Llywodraethwyr ar 029 20873760/029 20872913